

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Comisiwn y Cynulliad

**Polisi Iechyd a Diogelwch**  
**Corfforaethol**

Gorffennaf 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Comisiwn y Cynulliad

**Polisi Iechyd a Diogelwch**  
**Corfforaethol**

Gorffennaf 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynnwys

<b>01. Trefniadaeth a Chyfrifoldebau.....</b>	<b>1</b>
01.1. Y Prif Weithredwr a'r Clerc.....	1
01.2. Cyfarwyddwyr.....	1
01.3. Penaethiaid Gwasanaeth.....	2
01.4. Pennaeth Adnoddau Dynol.....	3
01.5. Rheolwyr Llinell/Goruchwyliwyr.....	3
01.6. Y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch.....	5
01.7. Y Nyrs Iechyd Galwedigaethol.....	6
01.8. Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau.....	6
01.9. Y Swyddog Caffael/Staff sy'n rhan o weithrediadau caffael.....	7
01.10. Cyflogeion.....	7
01.11. Cyfrifoldebau ychwanegol cyflogeion tra'u bod yn gweithio oddi ar safleoedd y Cynulliad.....	8
01.12. Cynrychiolwyr Diogelwch.....	9
<b>2. Trefniadau Iechyd a Diogelwch.....</b>	<b>10</b>
2.1 Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch.....	10
2.2 Polisiâu a gweithdrefnau.....	10
2.3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth.....	11
2.4 Ymgynghori a Chyfathrebu.....	11
2.5 Archwilio Iechyd a Diogelwch.....	12



## 01. Trefniadaeth a Chyfrifoldebau.

Er mwyn i iechyd a diogelwch gael ei reoli'n llwyddiannus o fewn y Cynulliad, mae'r cyfrifoldebau canlynol wedi cael eu dyrannu:

### 01.1. Y Prif Weithredwr a'r Clerc

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw perfformiad iechyd a diogelwch y sefydliad cyfan yn y pen draw, ac mae'n atebol yn hyn o beth i Gomisiwn y Cynulliad.

01. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:
02. Paratoi a chyhoeddi datganiad polisi ar agwedd y Cynulliad tuag at iechyd a diogelwch yn y gweithle.
03. Gweithredu'r amcanion iechyd a diogelwch, fel y'u nodwyd yn y Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch.
04. Adolygu'r Datganiad Polisi a'i ailddatgan yn rheolaidd.
05. Sicrhau bod gan y Cynulliad bolisiâu iechyd a diogelwch effeithiol, a gefnogir ar bob lefel o fewn y sefydliad.
06. Sicrhau bod y rheolwyr yn gweithredu'r polisi iechyd a diogelwch yn eu meysydd rheoli eu hunain, ac i'r graddau sy'n addas i'r lefel o risg.
07. Pennu amcanion iechyd a diogelwch y Cynulliad.
08. Sicrhau y caiff materion iechyd a diogelwch perthnasol eu hystyried a'u trafod ar lefel y bwrdd.
09. Sicrhau y caiff cyllid addas ac adnoddau eraill eu dyrannu i fodloni ymrwymadau iechyd a diogelwch y Cynulliad.
10. Sicrhau bod yr uwch-reolwyr wedi cael hyfforddiant yn eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a'u bod yn gwbl ymwybodol ohonynt.
11. Monitro iechyd a diogelwch ac adolygu perfformiad.
12. Ennyn cyflogeion i gyfranogi'n llawn o ran gwella iechyd a diogelwch.
13. Sicrhau y caiff iechyd a diogelwch ei drafod yn y Bwrdd Rheoli yn ôl yr angen.

### 01.2. Cyfarwyddwyr

Mae gan gyfarwyddwyr rôl bwysig o ran sicrhau y caiff gofynion polisiâu iechyd a diogelwch y Cynulliad eu harfer yn eu meysydd cyfrifoldeb fel rhan gynhenid o'n diwylliant.

Dylai cyfarwyddwyr sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i arferion iechyd a diogelwch, a ddiffinir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac mewn Codau Ymarfer cysylltiedig wrth ymgymryd â gweithgareddau beunyddiol y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am:

- 01.** Ymgyfarwyddo eu hunain â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.
- 02.** Sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig, a'u bod yn gweithredu'r gofynion hyn yn eu meysydd cyfrifoldeb.
- 03.** Sicrhau bod pob pennaeth gwasanaeth, rheolwr a chyflogai wedi cael hyfforddiant ac yn deall eu cyfrifoldebau i gyflawni eu dyletswyddau iechyd a diogelwch yn gymwys.
- 04.** Dyrannu adnoddau i sicrhau y gall amcanion a thargedau iechyd a diogelwch gael eu bodloni.
- 05.** Ymgynghori â phenaethiaid gwasanaeth, rheolwyr a chyflogeion i sicrhau y caiff mesurau eu mabwysiadu er mwyn hyrwyddo iechyd a diogelwch yn y gwaith, darparu trefniadau er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu mesurau o'r fath, a chydgyssylltu â rheolwyr a chyflogeion i ddatrys materion iechyd a diogelwch mewn modd cyfeillgar.
- 06.** Sicrhau y caiff y trefniadau rheoli iechyd a diogelwch o fewn eu meysydd eu monitro a'u hadolygu'n ffurfiol, yn flynyddol o leiaf.
- 07.** Hyrwyddo diddordeb a brwdfrydedd mewn materion iechyd a diogelwch, a gosod esiampl bersonol uchel o ran safonau iechyd a diogelwch drwy'r Cynulliad.

### **01.3. Penaethiaid Gwasanaeth**

Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth rôl bwysig o ran gweithredu polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, ac o ran monitro eu heffeithiolrwydd. Dylai Penaethiaid Gwasanaeth fod yn ymwybodol o ble y gellid gwneud gwelliannau o ran arferion iechyd a diogelwch, a dylent gymeradwyo gwelliannau sy'n sicrhau dylanwad cadarnhaol o ran diwylliant diogelwch y Cynulliad.

Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am:

- 01.** Ymgyfarwyddo eu hunain â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.
- 02.** Sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig, a'u bod yn gweithredu'r gofynion hyn yn eu meysydd cyfrifoldeb.
- 03.** Sicrhau bod pob rheolwr wedi cael hyfforddiant, ac yn deal ei gyfrifoldebau iechyd a diogelwch.
- 04.** Sicrhau bod cyflogeion wedi eu hyfforddi'n ddigonol i gyflawni'r tasgau angenrheidiol, a'u bod yn gwbl ymwybodol o'r holl beryglon hysbys sy'n bodoli, yn ogystal â'r trefniadau sy'n bodoli i liniaru'r peryglon hynny.
- 05.** Sicrhau y caiff amgylchedd diogel ac iach ei gynnal, ac y caiff popeth ei wneud yn unol â'r rheoliadau statudol a chodau ymarfer addas, a ystyrir fel y safon ofynnol isaf.
- 06.** Sicrhau bod yr holl gyfarpar gwaith hanfodol mewn cyflwr diogel, a bod pob mynedfa ac allanfa o ran lleoedd gwaith yn ddiogel bob amser.



07. Sicrhau bod cyflogeion, a phobl eraill y maent yn eu rheoli, yn cael hyfforddiant cynefino a hyfforddiant swydd i'w galluogi i weithio'n ddiogel.
08. Sicrhau y cynhelir ymchwiliad i bob damwain sy'n ymwneud â niwed personol, neu salwch, neu ddamwain a fu bron a digwydd; dylid ymchwilio i ddamweiniau mwy difrifol ar y cyd â'r Cynghorwr Iechyd a Diogelwch.
09. Sicrhau y cymerir camau unioni i rwystro damweiniau/digwyddiadau rhag digwydd eto.
10. Sicrhau y cydymffurfir â'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi ac ymchwilio i ddamweiniau.
11. Cyfeirio unrhyw achos o dorri rheoliadau statudol neu arfer anniogel at eu Cyfarwyddwyr, os na allant ymdrin ag ef yn effeithiol eu hunain.

#### **01.4. Pennaeth Adnoddau Dynol**

Yn ogysgal â'i gyfrifoldebau fel Pennaeth y Gwasanaeth, mae gan y Pennaeth Adnoddau Dynol gyfrifoldebau penodol hefyd i sicrhau y caiff y system reoli iechyd a diogelwch ei gweithredu a'i chyflawni yn effeithiol.

Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn gyfrifol am:

01. Sicrhau bod gweithdrefnau'n bodoli i archwilio a monitro i ba raddau y caiff y system reoli iechyd a diogelwch ei gweithredu, ac effeithiolrwydd y system.
02. Sicrhau y caiff rhaglen effeithiol o reoli iechyd a diogelwch ei pharatoi'n rheolaidd.
03. Sicrhau y caiff iechyd a diogelwch ei drafod yn y Bwrdd Rheoli yn ôl yr angen.
04. Gweithredu fel cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a sicrhau cyfathrebu effeithiol ag aelodau'r Bwrdd Rheoli.
05. Sicrhau y caiff nifer ddigonol o bobl gymwys eu penodi, yn ôl yr angen, i roi cyngor, arweiniad a chymorth ynghylch materion iechyd a diogelwch i'r rheolwyr a'r staff.

#### **01.5. Rheolwyr Llinell/Goruchwyliwyr**

Mae gan reolwyr llinell a goruchwyliwyr ddylanwad mawr ar yr arfer gwaith diogel a ddilynir yn eu maes cyfrifoldeb.

Mae Rheolwyr Llinell/Goruchwyliwyr yn gyfrifol am:

01. Ymglyfarwyddo eu hunain â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig.
02. Gweithredu gofynion polisi iechyd a diogelwch yn eu meysydd cyfrifoldeb.
03. Sicrhau y caiff gweithdrefnau iechyd a diogelwch eu dilyn.
04. Sicrhau bod pob cyflogai wedi cael hyfforddiant, ac yn deall ei gyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

- 05.** Adnabod ac atal arferion anniogel yn y gweithle, a chymryd camau unioni i'w rhwystro.
- 06.** Sicrhau bod popeth sy'n digwydd yn eu maes gweithredu yn rhan o asesiad risg addas a digonol, y gweithredir mesurau rheoli'r asesiadau risg, a bod y staff cymwys wedi cael eu hyfforddi.
- 07.** Sicrhau bod y cyflogeion y maent yn eu rheoli yn cynnal safonau gwaith diogel ac yn dilyn pob rheol ddiogelwch.
- 08.** Sicrhau y cydymffurfir â'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau ac ymchwilio iddynt, gan gynnwys damweiniau a fu bron a digwydd, ac y caiff pob damwain/digwyddiad yn eu maes cyfrifoldeb ei ymchwilio'n llawn.
- 09.** Sicrhau, yn ôl yr angen, y cymerir camau i rwystro damweiniau/digwyddiadau rhag digwydd eto.
- 10.** Sicrhau yr hysbysir y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch o bob damwain/digwyddiad er mwyn i ofynion statudol allu cael eu cyflawni.
- 11.** Sicrhau bod staff y maent yn eu rheoli yn cael hyfforddiant cynefino iechyd a diogelwch, a hyfforddiant cymwys, i'w galluogi i weithio'n ddiogel, a sicrhau y cedwir cofnodion o'r hyfforddiant.
- 12.** Sicrhau y cedwir amgylchedd diogel ac iach.
- 13.** Cyfeirio unrhyw achos o dorri rheoliadau statudol neu arferion anniogel at Bennaeth y Gwasanaeth, os na allant ymdrin ag ef yn effeithiol eu hunain.
- 14.** Sicrhau bod pob cyflogai yn gwbl ymwybodol o bob gweithrefn frys.
- 15.** Sicrhau y cynhelir safon uchel o ran cynnal a chadw ym mhob ardal waith.
- 16.** Sicrhau y cedwir drysau dianc rhag tân, diffoddyddion tân, a larymau yn glir o rwystrau, ac y gellir agor drysau dianc yn rhwydd o'r tu fewn.
- 17.** Sicrhau bod pob sylwedd, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei storio, ei drin, ei gludo, ei ddefnyddio, a'i waredu yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol.
- 18.** Sicrhau y symudir cyfarpar gwaith gwallus, fel na ellir ei ddefnyddio, nes y caiff ei atgyweirio neu ei newid.
- 19.** Ymdrin ar unwaith ac yn effeithiol ag unrhyw fater iechyd a diogelwch a ddaw i'w sylw.
- 20.** Gosod esiampl bersonol dda o ran safonau iechyd a diogelwch.
- 21.** Sicrhau bod personél diogelwch, fel aseswyr cyfarpar sgrin arddangos, yn cael hyfforddiant ac amser digonol i wneud eu gwaith diogelwch, bod y gwaith wedi'i restru yn eu disgrifiad swydd, a'i fod yn rhan o'u hadolygiad rheoli perfformiad.

## 01.6. Y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch

Y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch fydd y brif ffynhonnell o ran cyngor a gwybodaeth broffesiynol i Gomisiwn y Cynulliad.

Mae'r Cynghorwr Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am:

- 01.** Cynorthwyo i lunio a datblygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.
- 02.** Darparu cyngor ac argymhellion ar asesiadau risg, deddfwriaeth newydd, canfod amcanion iechyd a diogelwch, a newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau.
- 03.** Monitro asesiadau risg, a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau rheoli cysylltiedig a weithredwyd.
- 04.** Hyrwyddo ac annog ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch, a hyfforddiant iechyd a diogelwch.
- 05.** Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor iechyd a diogelwch.
- 06.** Crynhoi a chyflwyno gwybodaeth ystadegol ac adroddiadau iechyd a diogelwch ar berfformiad iechyd a diogelwch y Cynulliad ar gyfer yr uwch-reolwyr.
- 07.** Cynorthwyo ag ymchwiliadau i ddamweiniau a digwyddiadau, ac â chofnod statudol o ddamweiniau a digwyddiadau, yn unol â gofynion deddfwriaethol.
- 08.** Cysylltu ag awdurdodau statudol ynglŷn â materion iechyd a diogelwch.
- 09.** Cynghori uwch-reolwyr ynglŷn â materion iechyd a diogelwch perthnasol, ac ynglŷn ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu arfer gorau a allai gael effaith ar weithgareddau'r Cynulliad.
- 10.** Sefydlu a chynnal systemau monitro ac archwilio effeithiol ac addas ar gyfer gweithredu a pherfformiad y systemau rheoli iechyd a diogelwch, a chyfathrebu canlyniadau'r archwiliadau.
- 11.** Cefnogi a chynorthwyo y rhai sydd â rolau diogelwch penodol, fel aseswyr cyfarpar sgrin arddangos o fewn y meysydd gwasanaeth.
- 12.** Ymgymryd ag asesiadau o staff sydd ag anableddau, anghenion arbennig neu afiechyd.
- 13.** Sicrhau darpariaeth o gyfarpar cymorth cyntaf, a hyfforddiant cymorth cyntaf, yn unol â chanllawiau statudol.
- 14.** Cynorthwyo Yswyrwyr penodedig y Cynulliad o ran ymchwilio i hawliadau am iawndal anaf personol, a difrod i eiddo personol, a gweinyddu'r hawliadau hynny.

## 01.7. Y Nyrs Iechyd Galwedigaethol

Mae'r Nyrs Iechyd Galwedigaethol yn gyfrifol am:

01. Rheoli darpariaeth cwnsela lles a gwasanaethau cefnogi cyfrinachol i staff ar y cyd â'r darparwr allanol.
02. Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac iechyd galwedigaethol.
03. Cynnal a datblyu'r trefniadau iechyd galwedigaethol ar gyfer staff.
04. Rhoi cyngor annibynnol ar faterion yn ymwneud ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl i bob cyflogai.

## 01.8. Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau

Mae'r Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau yn chwarae rhan bwysig o ran cynnal a chadw'r amgylchedd gwaith mewn cyflwr diogel, a sicrhau y caiff yr holl waith cynnal ac adeiladu ei wneud gan contractwyr cymwys, heb risg i'r rhai y mae gweithgareddau'r Cynulliad yn effeithio arnynt na'r rhai sy'n gwneud y gwaith.

Mae'r Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau yn gyfrifol am sicrhau:

01. Eu bod yn ymgyswrtu eu hunain â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad, ac â pholisïau a gweithdrefnau, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig.
02. Bod systemau, sydd wedi cael eu datblygu a'u gweithredu, yn bodoli ar gyfer dewis, rheoli a chadw rheolaeth ar contractwyr cymwys ar gyfer pob gwaith adeiladu neu weithgareddau cynnal a chadw.
03. Bod trefniadau'n bodoli ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac archwilio diogel o adeiladwaith adeiladau'r Cynulliad a'r gwasanaethau adeiladu.
04. Bod gweithdrefnau digonol yn bodoli ar gyfer gwirio cymhwysedd iechyd a diogelwch contractwyr tra bo gwaith yn mynd rhagddo.
05. Bod mesurau rheoli'n bodoli ar gyfer rheoli sylweddau peryglus a ddefnyddir, fel rhan o'r gwaith o reoli cyfleusterau, gan staff neu contractwyr o fewn cylch gwaith y gwasanaeth cyfleusterau.
06. Bod systemau'n cael eu datblygu a'u gweithredu i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliadau statudol ar gyfer:
  - Systemau trydan sefydlog ac offer cludadwy
  - Legionella
  - Cyfarpar codi a rheoliadau codi
  - Asbestos
07. Bod gweithdrefnau digonol yn bodoli er mwyn cadw'r adeiladau yn lân, yn daclus, ac wedi eu cynnal i safonau addas, gan gynnwys gwaredu gwastraff.
08. Ar y cyd â'r Pennaeth Diogelwch, sicrhau bod systemau diogelwch addas yn bodoli.

09. Bod rhagofalon tân addas a digonol yn bodoli, ac y gwneir asesiadau risg tân.
10. Bod trefniadau yn cael eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer achosion brys effeithiol o ran tân, bomiau, neu unrhyw argyfwng arall, gan gynnwys penodi swyddogion digwyddiadau a swyddogion tân cymwys.
11. Bod amodau amgylchedd gwaith dan do addas yn cael eu cynnal.
12. Bod celfi a ffitiadau yn addas ac yn bodloni safonau iechyd a diogelwch.

### **01.9. Y Swyddog Caffael/Staff sy'n rhan o weithrediadau caffael**

Mae'r Pennaeth Caffael/staff sy'n rhan o gaffael yn gyfrifol am sicrhau:

01. Bod pob contract yn cael ei ddyfarnu ar sail telerau ac amodau contract safonol y Cynulliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gydymffurfio â goblygiadau statudol, darparu copi o'u datganiad iechyd a diogelwch, a chyfathrebu unrhyw faterion iechyd a diogelwch â'r cleient.
02. Bod pob aelod o staff sy'n rhan o weithrediadau caffael, gan gynnwys tendro am wasanaethau neu nwyddau, yn sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch addas a digonol yn ymddangos mewn dogfennaeth, i lefel sy'n gymesur â'r risg.
03. Bod yn rhaid gofyn am dystiolaeth o gymhwysedd iechyd a diogelwch a'i chofnodi, a chydymffurfio â deddfwriaeth statudol, ble mae risgiau sylweddol yn bodoli.
04. Y bydd methiant ar ran tendrwr i ddangos ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch statudol yn ystod gweithrediadau tendro, ble mae cydymffurfio wedi cael ei nodi fel maen prawf gwerthuso neu faen prawf cyn-gymhwyso, yn golygu y gellir ystyried y cais fel un nad yw'n cydymffurfio a'i fod, felly, yn anghymwys.
05. Bod disgwyl i staff sy'n gyfrifol am bennu contractau am nwyddau neu wasanaethau ymgorffori darpariaeth iechyd a diogelwch addas a digonol ym manylebau'r contract, a chwilio am dystiolaeth o gymhwysedd iechyd a diogelwch, a chydymffurfio â deddfwriaeth statudol, ble mae risgiau sylweddol yn bodoli.
06. Y dylid ystyried methiant ar ran contractwr i ddangos ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch statudol, tra'i fod yn darparu gwasanaethau neu nwyddau, fel tystiolaeth nad yw'n cydymffurfio â chytundeb.
07. Bod ffactorau ergonomaid yn cael eu hystyried yn ystod y broses o bennu, prynu a defnyddio systemau technoleg gwybodaeth.

### **01.10. Cyflogeion**

Mae diogelwch cyflogeion o'r pwys mwyaf i'r Cynulliad, a sicrhau y caiff yr holl waith ei wneud gydag ystyriaeth lawn o iechyd a diogelwch personol, a'i fod yn ystyried pobl eraill.

Mae cyflogeion yn gyfrifol am:

01. Cymryd gofal rhesymol dros eu diogelwch eu hunain, a diogelwch pobl eraill y gall eu gweithredoedd neu eu hanweithredoedd effeithio arnynt, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd.

02. Cydweithio â'r Cynulliad i fodloni gofynion deddfwriaeth iechyd a diogelwch, a'r trefniadau fel y'u nodir yn y polisi iechyd a diogelwch.
03. Peidio ag amharu ar unrhyw beth a ddarparwyd er lles iechyd a diogelwch na'i gamddefnyddio.
04. Hysbysu eu rheolwr neu'r rheolwr cyfleusterau am wallau mewn cyfarpar gwaith ac amodau anniogel yn y gweithle er mwyn cymryd camau unioni.
05. Dilyn pob cyfarwyddyd a roddir yn ysgrifenedig neu ar lafar er mwyn sicrhau diogelwch personol a diogelwch eraill.
06. Rhoi gwybod am unrhyw sefyllfa a allai greu risg difrifol neu risg bosibl i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain, neu unrhywun arall, tra'u bod yn y gwaith.
07. Gwisgo'n gall ac yn ddiogel ar gyfer eu hamodau gwaith penodol hwy.
08. Ymddwyn yn gall bob amser yn y gweithle, ac ymatal rhag unrhyw chwarae gwirion.
09. Defnyddio pob cyfarpar diogelwch a/neu ddrillad diogelwch yn ôl y gofyn, a dweud wrth eu rheolwr am unrhyw golledion neu wallau.
10. Ymgyfarwyddo eu hunain â'r holl gyfarpar, prosesau, deunyddiau a sylweddau a ddefnyddir, a thynnu sylw eu rheolwr llinell at unrhyw gyfarpar, prosesau, deunyddiau neu sylweddau na chawsant eu hyfforddi i'w defnyddio.
11. Dilyn pob system ddiogel o weithio a phob arfer gweithio diogel.
12. Cadw eu gweithle yn daclus, rhoi deunyddiau i gadw, eu storio yn gywir, a chydweithio ag arferion cadw tŷ da.
13. Hysbysu eu rheolwr am bob damwain, pa un ai a gafwyd anaf ai peidio.
14. Mynd ar gyrsiau hyfforddiant iechyd a diogelwch.
15. Bod yn gyfarwydd â'r trefniadau cymorth cyntaf, y gweithdrefnau gadael mewn argyfwng, a lleoliad larymau tân ac offer argyfwng.

### **01.11. Cyfrifoldebau ychwanegol cyflogeion tra'u bod yn gweithio oddi ar safleoedd y Cynulliad**

Mae rheolwyr a chyflogeion yn gyfrifol am:

01. Ymgyfarwyddo eu hunain â rheolau a chyfarwyddiadau penodol y safle a wneir ar gael iddynt.
02. Ymddwyn yn unol ag unrhyw ddarpariaethau iechyd a diogelwch rhesymol a roddir iddynt, gan gynnwys darpariaethau a gynhwysir ym mholisi neu weithdrefnau iechyd a diogelwch y sefydliad neu'r digwyddiad.
03. Eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a iechyd a diogelwch pobl eraill, y gall eu gweithrediadau neu eu hanweithrediadau effeithio arnynt tra'n gweithio oddi ar safleoedd y Cynulliad.

- 04.** Gwneud cais am ganiatâd gan eu rheolwr am lety ychwanegol mewn gwesty ar gyfer unrhyw sefyllfa resymol lle y byddai afiechyd neu flinder yn effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, neu iechyd a diogelwch eraill, tra ar fusnes swyddogol.

### **01.12. Cynrychiolwyr Diogelwch**

Er mwyn sicrhau cydweithrediad cyflogeion, ac ymgynghori â hwynt ar faterion iechyd a diogelwch, bydd y Cynulliad yn ymgynghori â chyflogeion drwy gynrychiolwyr diogelwch penodedig a achredwyd gan yr undebau llafur, gan ganiatau hyfforddiant rhesymol a'r cyfleusterau a'r cymorth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'r rhai sy'n cynrychioli diogelwch cyflogeion yn gyfrifol am:

- 01.** Cyflwyno sylwadau ynghylch peryglon posibl a digwyddiadau peryglus posibl a allai effeithio ar gyflogeion.
- 02.** Cyflwyno sylwadau ynghylch materion cyffredinol sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch cyflogeion yn y gwaith.
- 03.** Cynorthwyo ag ymchwilio'r gweithle.
- 04.** Cynrychioli cyflogeion mewn ymgynghoriadau â swyddogion gorfodi.
- 05.** Cynrychioli cyflogeion yn y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

## 02. Trefniadau Iechyd a Diogelwch

Mae'r rhan hon o'r ddogfen bolisi yn disgrifio'r trefniadau cyffredinol ar gyfer gweithredu a monitro iechyd a diogelwch yn y gwaith.

### 02.1. Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch.

O dan y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch, mae'n rhaid i bob rheolwr wneud asesiad addas a digonol o:

- risgiau iechyd a diogelwch y mae staff yn agored iddynt yn y gwaith; a
- risgiau iechyd a diogelwch eraill y gallai gweithredoedd y staff hynny effeithio arnynt.

Mae rheoliadau eraill o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn nodi bod yn rhaid ymgymryd ag asesiadau risg penodol, er enghraifft:

- Codi a chario
- Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Sylweddau peryglus, etc.

Dylid ymgymryd â'r asesiadau risg penodol yn ogystal â'r asesiadau risg cyffredinol.

Ymgymerir ag asesiadau risg addas a digonol i sicrhau bod cyflogeion, contractwyr ac ymwelwyr, a phawb arall yn ddiogel ac yn rhydd o risgiau i iechyd, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol resymol.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn ymrwmo i ddarparu amgylchedd diogel ac iach i bawb sy'n gweithio ar y safle ac a ddaw ar ymweliad. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i weithredu cynllun sy'n enghraifft o arfer gorau, ac sydd wedi ei seilio ar egwyddorion rheoli risg a rheoli ansawdd.

Bydd yr ymagwedd hon yn:

- Mynd i'r afael ag oblygiadau iechyd a diogelwch holl ystod gweithredoedd y staff;
- Canfod y peryglon ac asesu lefel risg;
- Dileu risg lle bo hynny'n bosibl;
- Lleihau effaith y risgiau hynny na ellir eu dileu.

Dylid adolygu asesiadau risg o dro i dro, er enghraifft, mewn achos o ddamwain, digwyddiad neu ddamwain a fu bron a digwydd, wrth brynu cyfarpar newydd, neu wrth symud i ardal waith newydd. Caiff adolygiad asesiad risg ei seilio ar lefel y risg.

### 02.2. Polisiâu a gweithdrefnau

Lle y gwelir angen, drwy ddeddfwriaeth, asesiad risg, arfer gorau, archwiliad iechyd a diogelwch, trafodion y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, neu unrhyw fodd arall, caiff polisi neu weithdrefn iechyd a Diogelwch ei sefydlu i bennu'r safon ar gyfer cyflawni a gweithredu'r pwnc dynodedig. Caiff y polisiâu neu'r gweithdrefnau hyn eu hadolygu os caiff deddfwriaeth ei newid neu os bydd arfer gorau yn mynnu hynny.



### **02.3. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth**

Dylid canfod anghenion hyfforddi iechyd a diogelwch cyflogeion a chontractwyr, a dylid cynnal hyfforddiant addas a digonol, mewn ymateb i ganfyddiadau asesiadau ac archwiliadau risg.

Bydd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch yn archwilio'r cofnodion hyfforddi i sicrhau y caiff y gweithdrefnau eu dilyn.

Mae'n rhaid ystyried gwybodaeth, gallu a gofynion iechyd a diogelwch cyn penodi neu ddyrannu personél i swydd neu leoliad newydd neu wahanol. Rhaid darparu hyfforddiant addas i fodloni anghenion yr unigolyn, a rhaid ei ddiweddarau o dro i dro mewn ymateb i unrhyw newid.

Mae'n rhaid i drefniadau hyfforddiant a chynnwys cyrsiau fod yn addas i anghenion y Cynulliad, gan fod yn gost-effeithiol, a chael eu cyflwyno yn broffesiynol.

Rhaid dadansoddi swyddi er mwyn canfod anghenion hyfforddi pob cyflogai.

Cedwir cofnod o'r holl hyfforddiant iechyd a diogelwch a gaiff cyflogeion. Bydd rheolwyr llinell yn sicrhau y caiff y wybodaeth berthnasol ei darparu i sicrhau y cedwir y cofnod yn gyfredol.

Mae'n rhaid i'r Cynghorwr Iechyd a Diogelwch gadw cofnodion hyfforddi addas (gan gynnwys, e.e., y math o gwrs hyfforddi, ei hyd, y dyddiad, y lleoliad, darparwr y cwrs ac enwau'r rhai a oedd ar y cwrs.).

### **02.4. Ymgynghori a Chyfathrebu**

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi ymrwmo i ymgynghori a chyfathrebu â chyflogeion ynghylch materion iechyd a diogelwch, ac mae'n cydnabod budd deialog adeiladol a chyfrannog. Bydd y Bwrdd Rheoli yn defnyddio pob dull posibl i ymgynghori a chyfathrebu, gan gynnwys y pwyllgor iechyd a diogelwch, y fewnrwyd, poster, byrddau gwybodaeth ac e-bost.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn ymgynghori ac yn cyfathrebu'n uniongyrchol â chyflogeion, ac â'u cynrychiolwyr diogelwch. Bydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod yn rheolaidd i hyrwyddo a datblygu diwylliant diogelwch cadarnhaol drwy ymgynghori ac ymrwmo'n effeithiol.

Bydd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch yn trefnu cyfarfodydd y pwyllgor diogelwch, gan sicrhau y caiff agendâu a chofnodion eu darparu yn unol â'r gweithdrefnau hyn. Caiff y cyfarfodydd eu cadeirio gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Bydd aelodaeth y pwyllgor yn wirfoddol, mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr, cynrychiolwyr yr undebau llafur a chyflogeion. Cyn belled ag y bo modd, bydd cynrychiolaeth eang o staff o bob rhan o'r sefydliad yn ffurfio'r pwyllgor, er mwyn sicrhau ymgynghori effeithiol a chynrychiolaeth o'r holl staff.

Disgwylir i Aelodau'r Pwyllgor bennu safonau iechyd a diogelwch uchel, o fewn eu hardaloed penodol, ac arwain drwy esiampl ym mhob mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

Caiff pob adnodd angenrheidiol, gan gynnwys amser, ei ddyrannu i sicrhau y gall aelodau'r pwyllgor gyflawni unrhyw gamau gweithredu a ddyrennir iddynt o ganlyniad i'r trafodaethau yn y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

## **02.5. Archwilio Iechyd a Diogelwch**

Bydd y Cynulliad yn archwilio ei system reoli iechyd a diogelwch o dro i dro.

Dylid rhoi gwybod i gynrychiolwyr diogelwch yr undebau llafur pan fwriedir cynnal archwiliadau diogelwch, a dylent gael eu gwahodd i gyfrannu iddynt.

Caiff holiadur neu restr gyfeirio ar gyfer archwiliad iechyd a diogelwch, sy'n addas i'r gwasanaeth a gaiff ei holi, ei ddilyn. Caiff rhaglen yr archwiliadau diogelwch ei monitro, a chaiff materion pwysig sy'n codi o archwiliadau iechyd a diogelwch eu hystyried drwy'r broses adolygu.

Bydd y broses adolygu yn sicrhau bod archwiliadau wedi cael eu cynhyrchu'n gywir a'u bod yn ymdrin â phob agwedd addas. Caiff y canlyniadau eu dadansoddi a'u blaenoriaethu i fod yn sail i'r rhaglen weithredu.

Bydd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch yn:

Datblygu'r rhaglen a'r fethodoleg archwilio, gan gynnwys unrhyw brotocolau a rhestrau cyfeirio, ac yn gwneud yr archwiliad o ganlyniad i hyn.

Cwblhau adroddiad archwilio ar gyfer pob archwiliad, a chynnal archwiliad dilynol o achosion o fethu â chydymffurfio os yw hynny'n berthnasol.

<sup>1</sup> Y sefyllfa gyfreithiol yw bod staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) yn cael eu cyflogi gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Comisiwn”), gyda’r nod o ddarparu’r eiddo, y staff a’r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad. Er mwyn osgoi unrhyw gymhlethdodau diangen, cyfeiria’r ddogfen hon drwyddi at “y Cynulliad”, er mai’r cyflogwr, yn ôl y gyfraith, yw’r Comisiwn.

I gael rhagor o gyngor, cysylltwch â’r	Cynghorwr Iechyd a Diogelwch
Perchennog y Polisi	Iechyd Corfforaethol
Dyddiad Cyhoeddi / Adolygu	Gorffennaf 2013
Dyddiad Arfaethedig ar gyfer Adolygu	Ar ôl 12 mis, a phob dwy flynedd wedi hynny neu yn y cyfnod rhwng hynny os y bu newid mewn deddfwriaeth sy’n effeithio ar y Polisi hwn, neu ar ôl digwyddiad sy’n golygu bod angen adolygu’r Polisi.